


Rhoi eich cymorth clywed ymlaen

Mae'r daflen hon yn glŷn â defnyddio eich cymorth clywed

Sut i roi eich cymhorthion clywed ymlaen



Mae drôr y batri ar waelod y cymorth clywed.

Gwnewch yn siŵr fod y batri i mewn.

Rhowch y cymorth ymlaen trwy gau drôr y batri yn llwyr.




Dylai unrhyw sŵn chwibanu stopio os yw'r cymorth yn eich clust y ffordd iawn.

Os oes gennych chi ddau gymorth clywed



Mae smotyn coch yn meddwl ei fod e ar gyfer y glust dde.

Mae smotyn glas yn meddwl ei fod e ar gyfer y glust chwith.



Dim ond i mewn i'r glust iawn y bydd **mowld y glust** yn mynd. Fydd o ddim yn ffitio yn y glust anghywir.

Mowld y glust yw'r rhan sy'n mynd i mewn i'r glust.


Sut i dynnu eich cymorth clust allan



Gwthiwch eich cymorth clust oddi ar dop eich clust.

Tynnwch **mowld y glust** allan o'ch clust.

Diffoddwch y cymorth trwy agor drôr y batri.



Mae drôr y batri ar waelod y cymorth clust.

Gallwch ddefnyddio eich gewin i'ch helpu i'w agor.


Newid y batri



Bydd arnoch chi angen newid y batri bob dwy wythnos.



Gallwch chi aros nes bydd y cymorth clywed yn bipian, yna newid y batri.



Neu gallwch chi ofyn i rywun arall newid y batri ar yr un diwrnod bob wythnos.